CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 8fed Mehefin, 2026**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.00 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Efan Thomas (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts,Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

15. **CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES**
Croesawodd y Gadeiryddes bawb i'r cyfarfod.

16. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

17. **CRONFA CEFNOGI CYNGHORAU CYMUNEDD – GWYNEDD NI**
Tynnwyd sylw fod cais GwyneddNi i fod i law erbyn dydd Llun, 15fed Mehefin, 2026.
Trafodwyd y posibiliadau o wneud pamffledi hysbysebu a chyflwynwyd pris:
Print Mart £225 + TAW
Carreg Gwalch £175 + TAW
Y prisiau uchod yn cynnwys dylunio ac argraffu 100 copi.
Trafodwyd hefyd rhoddi hysbysfyrddau yn y gwahanol ardaloedd, Botwnnog, Sarn, Bryn Mawr. Bryncroes a Hebron, Llangwnnadl, yn olrhain hen hanes yr ardaloedd.
Penderfynwyd fod y Gadeiryddes a'r Clarc i baratoi'r cais ac fod y canlynol i'w cynnwys:
Hysbysfyrddau ar gyfer yr ardaloedd a nodir uchod.
Cael prisiau am hysbysfyrddau/dylunio a.y. gan Mart Design ac hefyd Llewes, Pwllheli
Cynnwys yn y cais diffibliwr ym mhentref Bryncroes.

18. **SEDD WAG**
Derbyniwyd gwybodaeth gan Y Swyddog Etholiadol nad oedd unrhyw un wedi dangos diddordeb yn y sedd wag ar Ward Bryncroes. **Yn unol a'r canllawiau rhoddir y rhybudd cyfethol isod i fyny yn y Gymuned:**
Hysbysiad o Gyfethol
RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned Botwnnog yn bwriadu Cyfethol 1 aelod i lenwi'r sedd gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd ward Bryncroes.
Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu

- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.[1]

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned yn Gwyndy, Bryncroes, teleffon 01758 730357 (ar ol 6.00 y.h.) erbyn dydd Mercher, 8fed Gorffennaf, 2026."

19. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 11eg MAI, 2026**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 12 – Cadarnhau Cofnodion - Eitem 117 cymal (1) – Goryrru ar allt Mellteyrn

Gan na dderbyniwyd ymateb am gan Mabon ap Gwynfor, AS, **penderfynwyd** anfon copi o'r llythyr anfonwyd ato at Sian Gwenllian, Beca Brown ac Elwyn Fôn, Aelodau Seneddol, yn gofyn am eu cefnogaeth.

(2) Eitem 14 – Awdurdod i Dalu

Adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans fod dau focs diffibliwr newydd wedi eu derbyn ac fod y padiau ar gyfer y bocsys yn cyrraedd o fewn y diwrnod neu ddau nesaf. Hefyd fod clo wedi ei dderbyn ar gyfer bocs Sarn. Dywedodd Y Cynghorydd Evans y byddai Carwyn Evans, ei gŵr, yn gosod y bocsys a.y. Diolchwyd iddo am ei barodrwydd i helpu.

20. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

21. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Adroddwyd fod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan yr Adran Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd ac fod popeth mewn trefn. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'r cofnodion ac hefyd y ffurflen flynyddol am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth, 2026. Dosbarthwyd hefyd, er gwybodaeth, yr hyn fydd Archwilio Cymru ei angen gan fod yr archwiliad y tro hwn yn un llawn.

Penderfynwyd

(a) Awdurdodi'r Gadeiryddes i arwyddo tudalen 5 o'r ffurflen flynyddol yn cadarnhau fod "y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyn wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor o dan gyfeirnod 21(a) o'r Cyngor 8fed Mehefin, 2026.

(b) Nodi adroddiad yr Adran Achwilio Mewnol Cyngor Gwynedd.

22. **AWDURDOD I DALU**

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:

J.D. a M.E.P. Williams – ail adeiladu a thwsio Ffynnon Mair, Bryncroes - £300+ TAW (siec 100079)

Y Clarc - £420 (siec 100080)

HMRC - £105 (siec 100081)

23. **FFYNNON FAIR, BRYNCROES A CHASGLU YSBWRIEL**

Adroddodd y Gadeiryddes ei bod wedi trefnu sesiynau casglu ysbrwiel fel a ganlyn a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau:

"Nos Lun, 22 Mehefin – Bryncroes. Cyfarfod am 7 o flaen y Ganolfan. Cynnwys chwynnu o'r Ffynnon a chlirio rownd y Ganolfan.

Nos Lun, 29 Mehefin – Sarn. Cyfarfod am 7 o flaen y Neuadd. Mi wnaf ofyn i Kevin (AHNE) strimio o gwmpas y gwrych newydd.

Nos Lun, 6 Gorffennaf – Botwnnog. Cyfarfod am 7 o flaen Canolfan Congol Meinciau."

Gwerthfawrogir gwaith y rhai ohonoch oedd yn gallu helpu ar y nosweithiau hyn.

24. **LLWYBR O FOTWNNOG I NEIGWL UCHAF**

Ystyriwyd gwahodd Hywyn Williams i gyfarfod mis Gorffennaf i drafod a oes grant/cymorth ar gael i drwsio a thrin y llwybr.

Penderfynwyd symud ymlaen i wahodd y Swyddog.

25. **MATERION FFYRDD/LLWYBRAU**

Penderfynwyd tynnu sylw at gyflwr yr Allt i lawr am bentref Sarn Mellteyrn.

Yn y cyswllt hwn derbyniwyd rhestr o waith i'w ymgymeryd gan yr Adran Priffyrdd yn ystod mis Mehefin sef – Botwnnog – cynnal ymylon ffyrdd ac hefyd cynllun i adnewyddu'r arwyddion gan gynnwys yr enwau'n uniaith Gymraeg.

26. **PLANNU BLODAU**

Gan ei bod yn amser twtio a phlannu blodau unwaith eto yn y potiau yn y gwahanol ardaloedd, addawodd Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai'n mynd i Tyddyn Sachau i'w nhol.

Diolchwyd iddo.

27. **HYSBYSIAD FFURFIOL O YMGYNGHORIAD GAN GYNGOR GWYNEDD AR GYNNIG ARDOLL YMWELWYD GWYNEDD**

Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad rhwng 20fed Mai a 15fed Gorffennaf, 2026 – anfonwyd copi o'r linc i bob aelod a rhoddwyd cyfle i bawb ymateb, os yn dymuno, yn uniongyrchol.

28. **POLISI GOSODIADAU LLEOL BOTWNNOG**

Nodwyd i e-bost gan ei dderbyn gan Sian Parri, Cyfeillion Llyn, noson cyn y cyfarfod, 7fed Mehefin, 2026, gan nad oedd i law mewn pryd yn unol a'r Rheoliadau Sefydlog, **penderfynwyd** ei drafod yn y cyfarfod mis Gorffennaf.